



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Dolwen

**Dolwen
Ffordd Rhuthun
Dinbych
LL16 3ER**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/02/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dolwen

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ddinbych
Lleodd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	28 Chwefror 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae Dolwen yn wasanaeth cyfeillgar a chroesawgar. Mae pedair uned yn y cartref preswyl ac mae canolfan ddydd a gaiff ei defnyddio gan bobl yn y gymuned leol. Pan na chaiff y cyfleuster hwn ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau dydd, mae ar gael ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau i bobl sy'n byw yn y cartref. Mae digon o leoedd cyfforddus i'r bobl eistedd a sgwrsio yn y cartref, neu fwynhau rhai o'r gweithgareddau a gaiff eu cynnig gan y gwasanaeth.

Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac maent yn ymateb i'w hanghenion. Maent yn dilyn cynlluniau personol clir a manwl, gan sicrhau y caiff anghenion iechyd a chymorth eu diwallu. Mae'r staff gofal yn glir o ran canlyniadau personol y bobl ac maent yn eu cefnogi i gyflawni'r rhain.

Mae'r tîm rheoli yn monitro perfformiad y gwasanaeth yn ofalus ac mae ei systemau yn helpu i nodi unrhyw faterion a gweithredu yn eu cylch. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd da yn cael eu darparu.

Llesiant

Mae'r bobl yn gyfforddus ac yn gartrefol yn eu cartref ac maent yn mwynhau sgwrsio â'i gilydd a'u staff gofal. Mae lolfeydd bach i'r bobl eistedd a chymdeithasu a gwnaethant ein gwahodd i ymuno â'u sgysiau ar ddiwrnod ein harolygiad. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu hamser ac mae amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael. Gwelsom arddangosfa o hetiau'r Pasg roedd y bobl wedi'u creu ar gyfer cystadleuaeth. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i arfer eu credoau crefyddol ac mae gweinidogion yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r cydgysylltydd gweithgareddau hefyd yn trefnu gweithgareddau un i un i'r bobl, megis eu helpu i baratoi pryd. Gall y bobl fwynhau teithiau i'r gymuned leol, gan gynnwys teithiau i'r traeth, i siopa neu i dafarn leol. Mae'r bobl yn cael dewis o brydau bwyd a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd; dywedodd un unigolyn fod y bwyd yn *"fantastic"*.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gymryd rhan yn y gymuned leol a gallant achub ar gyfleoedd gwirfoddoli os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r cydgysylltydd gweithgareddau yn trefnu siop yn y cartref, yn gwerthu byrbrydau a chynnyrch ymolchi, ac mae hyn yn rhoi cyfle i'r bobl wirfoddoli i'r gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i breswylwyr a gweithredir ar y syniadau a gaiff eu hawgrymu. Er enghraifft, gofynnwyd am farn y bobl ar y gwaith ailaddurno diweddar yn un o'r lolfeydd.

Mae croeso i ymwelwyr ar unrhyw adeg a chaiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Gall y bobl ddefnyddio'r ganolfan ddydd ar gyfer eu cyfarfodydd a'u digwyddiadau eu hunain. Gall y bobl elwa ar gydberthnasau cyfeillgar â'r staff gofal hefyd, sy'n treulio amser yn dod i adnabod y bobl ac yn eu trin mewn ffordd garedig a pharchus. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *"Residents are like family"*.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg ag aelodau o'r staff gofal sy'n siarad Cymraeg. Mae arwyddion dwyieithog yn y gwasanaeth ac mae'r fwydlen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r staff gofal yn diogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl. Mae hyn yn golygu bod rhywun i gynrychioli eu barn ac i gynnal eu hawl i ofyn am adolygiad o'u lleoliad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon gyda'r staff gofal a'r rheolwyr.

Gofal a Chymorth

Ymgynghorir â'r bobl ynglŷn â'u dymuniadau a'u dyheadau ac mae eu ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth fanwl am eu hanes personol a'u dewisiadau. Y wybodaeth hon yw sail eu cynlluniau personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu llofnodi gan yr unigolyn lle bo hynny'n bosibl. Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n disgrifio eu canlyniadau ac yn rhoi darlun clir o'r unigolyn a'r hyn y mae am ei gyflawni. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi cyfarwyddiadau da i'r staff gofal eu dilyn wrth ddarparu gofal, gan gynnwys y pethau y gall yr unigolion eu gwneud drostynt eu hunain. Mae hyn yn golygu y gall y staff gofal hyrwyddo annibyniaeth unigolion. Mae'r staff gofal yn adolygu'r cynlluniau personol bob mis, gan gofnodi crynodeb o sefyllfa ddiweddaraf yr unigolyn a sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda; dywed y bobl eu bod yn "*kind and caring*" ac yn "*excellent*".

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r staff gofal yn amyneddgar ac yn ystyriol gyda'r bobl ac maent yn sicrhau y caiff gofal ei ddarparu yn unol â'u cynllun personol. Mae'r staff gofal yn ail-leoli'r bobl yn rheolaidd pan fydd angen er mwyn lleihau'r risg o friwiau pwyso ac maent yn rhoi arsylwadau bob hanner awr ar waith pan fydd angen, er enghraifft ar ôl i unigolyn gwmpo. Mae gan y gwasanaeth gydberthynas dda â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a rhoddir gwybod am unrhyw bryderon yn brydlon, gan sicrhau y dilynir eu cyngor. Gwnaethom siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a ddywedodd wrthym fod prosesau cyfathrebu effeithiol â'r staff gofal ac y byddant bob amser yn cysylltu os bydd rhywbeth anghyffredin yn codi.

Mae systemau diogel ar waith yn y gwasanaeth i reoli meddyginiaeth, gan gynnwys cyfleusterau storio diogel. Caiff y staff gofal wiriadau cymhwysedd meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau yn ddiogel. Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn glir ac wedi'u cwblhau'n llawn. Mae gan y bobl gynlluniau gofal ar gyfer meddyginiaeth sy'n cynnwys lefel dda o fanylder, gan gofnodi eu dewisiadau a'r cymorth sydd ei angen.

Mae pob rhan o'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Mae'r staff gofal yn cwblhau llyfr gwaith rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag arferion diogel a hylan sy'n lleihau'r risg o haint.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sydd â digon o leoedd i eistedd ac ymlacio, mwynhau gweithgareddau neu gwrdd ag ymwelwyr. Mae'r cartref wedi'i rannu'n bedair uned ac mae gan bob un ei lolfa a'i hystafell fwyta ei hun. Mae pob un o'r ardaloedd hyn yn fach ac yn gysurus ac maent wedi'u haddurno mewn ffordd gartrefol. Yn yr ystafell fwyta, gall y bobl helpu eu hunain i baned o de o debot a ddarperir ar bob bwrdd yn ystod prydau. Mae ardal i eistedd ac ymlacio ar y landin gyda chypyrddau llyfrau, piano a radio. Mae ardal awyr agored hefyd gyda meinciau lle gall y bobl ymlacio. Roedd yr ardal hon yn llawn lliwiau'r gwanwyn yn ystod ein hymweliad. Dywedodd un aelod o'r staff fod y gwasanaeth yn “*very homely*.”

Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus a gellir eu haddurno yn unol â chwaeth bersonol y bobl. Roedd y bobl yn llawn balchder wrth ddangos eu hystafelloedd i ni, a gwelsom eu bod wedi dod â rhywfaint o'u heiddo a'u lluniau eu hunain o'u cartrefi er mwyn eu personoli. Mae enwau'r unigolion ar ddrysau'r ystafelloedd gwely, ynghyd â llun o'u dewis i gynrychioli eu diddordebau.

Mae cymhorthion arbenigol ar gael i'r bobl er mwyn diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod canllawiau cydio ym mhob rhan o'r adeilad. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ymolchi sy'n golygu y gall y bobl ddefnyddio cymhorthion symudedd a theclynnau codi. Mae cegin yn y ganolfan ddydd sydd ag arwyneb gwaith y gellir ei addasu ac mae'n hygyrch i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau y caiff gofynion iechyd a diogelwch eu bodloni. Gwelsom dystysgrifau diogelwch trydanol a nwy. Caiff gwiriadau diogelwch tân a dŵr eu cwblhau'n rheolaidd a chaiff cemegion eu storio'n ddiogel.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n sicrhau ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff er mwyn monitro sut mae'r gwasanaeth yn cyflawni canlyniadau'r bobl. Caiff yr ymweliadau hyn eu cynnal ar adegau amrywiol yn ystod y dydd, sy'n golygu y gall weld y staff dydd a'r staff nos. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn mynd ar daith o gwmpas yr adeilad, yn ystyried materion staffio ac yn adolygu sampl o ffeiliau. Caiff unrhyw gamau gweithredu gofynnol eu cofnodi a chânt eu hystyried yn yr ymweliad nesaf er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â nhw. Caiff adroddiad ar ansawdd y gofal ei gwblhau ar gyfer y gwasanaeth bob chwe mis hefyd. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd da yn cael ei ddarparu. Gwelsom fod y rhain yn nodi materion ac yn cofnodi'r camau unioni y dylid eu cymryd. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bron bob wythnos a'i fod yn hawdd mynd ato.

Cynhelir gwiriadau recriwtio trylwyr pan fydd y staff gofal yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a geirdaon. Mae'r rheolwr yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cynnig cyfle i drafod materion ymarfer a mynd i'r afael â nhw. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwyllo gyda'r tîm rheoli hefyd. Mae'r sesiynau goruchwyllo yn ystyried llesiant y staff a materion ymarfer, yn ogystal ag ystyried eu dysgu a'u datblygiad yn eu rôl. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant craidd rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r bobl. Mae'r rheolwr yn ymwybodol bod angen i'r staff gofal gael hyfforddiant mwy arbenigol, megis hyfforddiant ar ddementia a chyflyrau iechyd penodol. Mae'n ymdrin â'r mater hwn a gall y staff gofal gwblhau cyrsiau dysgu ar-lein yn y meysydd hyn.

Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y bobl. Caiff y gwasanaeth ei gynnal a'i gadw'n dda a gwelsom fod rhai rhannau o'r cartref wedi cael eu hailaddurno'n ddiweddar.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 10/06/2024